Gweithgaredd 4

Addas i
barau neu grwpiau
Oed 10+

# MAE HYNNY'N FFAITH

## TASG

Casglu gwybodaeth am faterion amgylcheddol fyddai'n ddefnyddiol ac yn adnodd i'ch clwb.

## OFFER

Pensiliau, clipfyrddau, Taflen Adnoddau 2 (neu un eich hun), cyfrifiannell, pren mesur .

## GWEITHGAREDD

- Gall gwybodaeth am faterion amgylcheddol ein helpu i wneud newidiadau syml fydd yn lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd.
- Yn gyntaf rhaid dewis cwestiwn neu bwnc. Yna mae'n rhaid chwilio am wybodaeth drwy e.e. cyfrif, arsylwi, cwestiynu a chyfweld.
- ·Bydd angen dangos yr hyn ddysgoch chi ar ffurf graff neu dabl.
- Ydi'r graff neu dabl yn dangos bod yna broblem?
- Rhannwch y wybodaeth efo bobl eraill sydd â diddordeb yn eich clwb e.e. drwy boster, llythyr, e-bost, adroddiad neu gyflwyniad.

Dyma rai pynciau:

- Goleuni:
  Lle mae goleuadau eich cartref, clwb ayb?
  Faint o'r bylbiau sy'n rhai ynni isel?
  Pa oleuadau sy'n cael eu defnyddio amlaf?
- Sbwriel
  Lle mae'r biniau?
  Faint o finiau sydd yna ar gyfer mathau penodol o sbwriel?
  Pa finiau sy'n cael eu defnyddio amlaf?
  Beth sy'n cael ei daflu amlaf i'r bin?
  Beth ydi'r peth anoddaf i gael gwared ag o?
- Defnydd o ddŵr
  Ble mae'r tapiau a'r peipiau dyfrio?
  Oes yna wn dŵr ar y peipiau dyfrio i reoli'r llif?
  Pa dapiau neu beipiau dyfrio sy'n cael eu defnyddio amlaf?
  Pa weithgareddau sy'n defnyddio rhan fwyaf y dŵr?

TAFLEN ADNODDAU

Gweithgaredd 4

# MAE HYNNY'N FFAITH

Pwnc

Enw Dyddiad

Efallai bydd angen addasu nifer y bocsys ateb i i gyd-fynd â'ch cwestiwn

| Cwestiwn: *e.e. Nifer y bylbiau ynni isel sydd yn yr adeilad ac o'i gwmpas* | Ateb: *e.e. nifer y bylbiau, y nifer ymhob ystafell, neu'r nifer fel cyfran o gyfanswm holl fylbiau'r adeilad.* . |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |